

Cyfrinachedd: addasrwydd cleifion i yrru ac adrodd pryderon i'r DVLA neu i DVA

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion* rydym yn nodi:

1 Mae ymddiriedaeth yn rhan hanfodol o'r berthynas rhwng meddyg a chlaf ac mae cyfrinachedd yn ganolog i hyn. Efallai y bydd cleifion yn osgoi ceisio help meddygol, neu efallai na fyddant yn rhoi disgrifiad llawn o'u symptomau, os byddant yn credu y bydd meddygon yn datgelu eu gwybodaeth bersonol heb eu caniatâd, neu os na fyddant yn cael y cyfle i gael rhywfaint o reolaeth dros yr amseru neu swm y wybodaeth a rennir.

60 Mae gan feddygon ddyletswydd cyfrinachedd tuag at eu cleifion, ond hefyd, mae ganddynt ddyletswydd ehangach i ddiogelu ac i hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.

62 Dylech ofyn am ganiatâd claf i ddatgelu gwybodaeth er mwyn diogelu eraill oni bai nad yw hi'n ddiogel neu'n ymarferol i chi wneud hynny,¹ neu os yw'r wybodaeth yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Dylech ystyried unrhyw resymau a roddir dros wrthod rhoi caniatâd.

64 Os nad yw hi'n ymarferol i chi geisio caniatâd, ac mewn achosion eithriadol pan fo claf wedi gwrthod rhoi eu caniatâd, efallai bod modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol er budd y cyhoedd os allai methu gwneud hynny olygu bod eraill

mewn perygl o ddioddef niwed difrifol neu farwolaeth. Rhaid i'r budd i unigolyn neu i gymdeithas o ddatgelu'r wybodaeth fod yn drech na'r budd i'r cyhoedd ac i'r claf o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

68 Os ydych o'r farn y byddai methu datgelu'r wybodaeth yn golygu bod unigolion neu gymdeithas mewn perygl mor ddifrifol fel ei fod yn drech na'r budd i'r claf ac i'r cyhoedd o gynnal cyfrinachedd, dylech ddatgelu gwybodaeth berthnasol yn brydlon i unigolyn neu awdurdod priodol. Dylech hysbysu'r claf cyn datgelu'r wybodaeth, os yw'n ymarferol ac yn ddiogel i chi wneud hynny, hyd yn oed os ydych yn bwriadu datgelu heb sicrhau eu caniatâd.

Am yr arweiniad hwn

2 Mae gan feddygon ddyletswydd cyfrinachedd tuag at eu cleifion, ond hefyd, mae ganddynt ddyletswydd ehangach i ddiogelu ac i hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.² Mae'r arweiniad esboniadol hwn yn nodi'r camau y dylai meddygon eu cymryd os bydd y ffaith bod claf yn methu neu'n gwrthod rhoi'r gorau i yrru yn rhoi eraill mewn perygl o ddioddef niwed difrifol neu farwolaeth.³

Addasrwydd i yrru: cyfrifoldebau meddygon a chleifion

- 3 Mae gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a Driver Vehicle Agency (DVA) yng Ngogledd Iwerddon gyfrifoldeb cyfreithiol dros benderfynu a yw unigolyn yn anghymwys i yrru am resymau meddygol. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt gael gwybod os bydd deiliad trwydded yrru yn dioddef cyflwr neu'n cael triniaeth a allai effeithio ar eu diogelwch fel gyrrwr nawr neu yn y dyfodol.
- 4 Mae gan y gyrrwr gyfrifoldeb cyfreithiol dros hysbysu DVLA neu DVA o fodolaeth cyflwr neu driniaeth o'r fath. Felly, dylai meddygon hysbysu cleifion o gyflyrau a thriniaethau y gallent effeithio ar eu gallu i yrru a'u hatgoffa o'u dyletswydd i hysbysu'r asiantaeth briodol. Efallai, fodd bynnag, y bydd angen i feddygon wneud penderfyniad ynghylch a ddylid datgelu gwybodaeth bersonol heb sicrhau caniatâd i DVLA neu DVA er budd y cyhoedd os bydd claf yn anghymwys i yrru ond maent yn parhau i wneud hynny.

Asesu addasrwydd claf i yrru

- 5 Wrth roi diagnosis o gyflwr claf, neu ddarparu neu drefnu triniaeth, dylech ystyried a allai'r cyflwr neu'r driniaeth effeithio ar eu gallu i yrru'n ddiogel. Dylech:
 - droi at arweiniad *DVLA, Assessing fitness to drive – a guide for medical professionals*,⁴ sy'n cynnwys gwybodaeth am anhwylderau a chyflyrau sy'n gallu amharu ar addasrwydd claf i yrru
 - ceisio cyngor cydweithiwr profiadol neu gynghorydd meddygol DVLA neu DVA os nad ydych yn siŵr a allai cyflwr neu driniaeth effeithio ar addasrwydd claf i yrru.⁵

Adrodd pryderon i DVLA neu DVA

- 6 Os oes gan glaf gyflwr neu os ydynt yn cael triniaeth a allai effeithio ar eu haddasrwydd i yrru, dylech:
 - a esbonio hyn i'r claf a dweud wrthynt bod ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i hysbysu DVLA neu DVA
 - b dweud wrth y claf y gallai fod rhwymedigaeth arnoch i ddatgelu gwybodaeth feddygol berthnasol amdanynt, mewn ffordd gyfrinachol, i DVLA neu DVA os byddant yn parhau i yrru pan nad yw'n addas eu bod yn gwneud hynny
 - c gwneud nodyn o unrhyw gyngor yr ydych chi wedi'i roi i glaf am eu haddasrwydd i yrru yn eu cofnod meddygol.
- 7 Os na all claf ddeall y cyngor hwn – er enghraifft, oherwydd dementia – dylech hysbysu DVLA neu DVA cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.
- 8 Os bydd claf yn gwrthod derbyn y diagnosis, neu effaith y cyflwr neu'r driniaeth ar eu gallu i yrru, gallwch awgrymu y dylent geisio ail farn, a'u helpu wrth wneud y trefniadau ar gyfer hyn. Dylech gynghori'r claf i beidio gyrru yn y cyfamser. Os yw'r claf yn cytuno, gallwch drafod eich pryderon gyda'u perthnasau, eu ffrindiau neu eu gofawyr.
- 9 Os byddwch yn dod yn ymwybodol o'r ffaith bod claf yn parhau i yrru pan fyddant yn anghymwys i wneud hynny efallai, dylech geisio gwneud pob ymdrech resymol i'w perswadio i roi'r gorau i hynny. Os na fyddwch yn llwyddo i berswadio'r claf i beidio gyrru, neu os byddwch yn darganfod eu bod yn parhau i yrru gan fynd yn groes i'ch cyngor chi, dylech ystyried a yw'r ffaith bod y claf yn gwrthod rhoi'r gorau i yrru yn rhoi eraill mewn perygl o ddioddef niwed difrifol neu farwolaeth. Os ydych o'r farn ei fod, dylech gysylltu â DVLA neu DVA yn ddi-oed a datgelu unrhyw wybodaeth feddygol berthnasol, mewn ffordd gyfrinachol, i'r cynghorydd meddygol.

- 10** Cyn cysylltu â DVLA neu DVA, dylech geisio hysbysu'r claf o'ch bwriad i ddatgelu gwybodaeth bersonol. Os bydd y claf yn gwrthwynebu i'r datgeliad, dylech ystyried unrhyw resymau y maent yn eu rhoi dros wrthwynebu. Os byddwch yn penderfynu cysylltu â DVLA neu DVA, dylech hysbysu'ch claf yn ysgrifenedig ar ôl i chi wneud hynny, a gwneud nodyn yng nghofnod y claf.

Ymateb i geisiadau am wybodaeth gan DVLA neu DVA

- 11** Os byddwch yn cytuno paratoi adroddiad neu gwblhau neu lofnodi dogfen er mwyn cynorthwyo asesiad DVLA neu DVA o addaswydd claf i yrru, dylech wneud hynny heb unrhyw oedi afresymol.

Ôl-nodion

- 1 Rydym yn rhoi enghreifftiau o adegau pan na fydd hi'n ymarferol ceisio caniatâd efallai ym mharagraff 14
Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion. Mae modd i chi weld ein holl arweiniad ar-lein trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.
- 2 Gweler 'Dyletswyddau meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol' yn *Arfer meddygol da*, y mae modd i chi ei weld trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.
- 3 Mae'r egwyddorion yn yr arweiniad hwn yn berthnasol i yrwyr a pheilotiaid mathau eraill o drafnidiaeth rheoledig arall, gan gynnwys ar reilffyrdd, ar ddŵr ac yn yr awyr, er bod unigolion o'r fath yn debygol o fod yn destun asesiad meddygol fel rhan o'r broses drwyddedu neu ardystio berthnasol. Os ydych chi'n pryderu nad yw claf sy'n dal trwydded peilot preifat neu fasnachol yn ffit i hedfan oherwydd eu hiechyd, gallwch gysylltu ag adran feddygol Awdurdod Hedfan Sifil y DU ar 0330 022 1972 am gyngor cyfrinachol neu, y tu allan i oriau swyddfa, ffoniwch prif rif derbynfa CAA ar 0330 022 1500 neu anfonwch e-bost at medicalweb@caa.co.uk. I gael cyngor am forwr, mae modd i chi gysylltu â changen iechyd a diogelwch yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau am gyngor trwy anfon e-bost at seafarers.h&s@mcga.gov.uk. Os ydych yn pryderu y gallai cyflwr meddygol neu driniaeth gyrrwr trên olygu nad ydynt yn addas i yrru trên, y cyngor a roddir gan Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd (ORR) yw y dylid cysylltu ag adran AD eu cyflogwr yn y lle cyntaf. Gall ORR ddarparu manylion cyswllt gweithredwyr trenau ym Mhrydain os ydych yn gwybod enw'r cyflogwr. Mae modd i chi gysylltu ag ORR trwy anfon e-bost at rsd.admin@orr.gsi.gov.uk.
- 4 Mae modd i chi weld hwn trwy droi at www.gov.uk/government/publications/assessing-fitness-to-drive-a-guide-for-medical-professionals.
- 5 Mae modd i chi gysylltu â chynghorwyr meddygol DVLA ar 01792 782337 neu thrwy anfon e-bost at medadviser@dvla.gsi.gov.uk, a DVA ar 0800 200 7861